



YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:

34/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:

21/05/2020

Ymchwil cynnar i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Peilot Bwndel Babi

Ymchwil gynnar i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Peilot Bwndel Babi

Awdur: Faye Gracey a Hannah Browne Gott

Adroddiad Ymchwil Llawn: Gracey, F a Browne Gott, H (2020). *Ymchwil cynnar i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Peilot Bwndel Babi* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 34/2020.

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/ymchwil-cynnar-i-lywio-datblygiad-y-cynllun-peilot-bwndeli-babanod-cyhoeddiad>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Faye Gracey

Is-adran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 257459

Ebost: maguplant@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Crynodeb

1.	Cyflwyniad	3
2.	Methodoleg	5
3.	Canfyddiadau	10
	Cysyniad y bwndel	10
	Man cysgu	10
	Cynnwys y bwndel.....	11
	<i>Dillad gwely</i>	12
	<i>Dillad</i>	13
	<i>Bwydo/bwydo ar y fron</i>	14
	<i>Ymolchi/glanhau</i>	16
	<i>Eitemau amrywiol</i>	17
	<i>Gwybodaeth</i>	19
	Cofrestru ar gyfer y bwndel a'i ddosbarthu	20
4.	Casgliadau a'r camau nesaf	22
	Atodiad A: Cwestiynau'r arolwg ar-lein agored.....	23
	Atodiad B: Amlinelliad o drafodaeth y grwpiau ffocws i rieni	27
	Atodiad C: Amlinelliad o drafodaeth y grwpiau ffocws i weithwyr proffesiynol	32

Ym mis Awst a Medi 2019, aethom ati i wneud gwaith ymchwil cynnar i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu Bwndel Babi yn unol â'r ymrwymiad ym manifestio Llywodraeth Cymru.

Mae rhieni'n gefnogol iawn o'r syniad a bydden yn hoffi derbyn Bwndel Babi, ac mae gweithwyr iechyd proffesiynol hefyd yn gefnogol ar y cyfan, ond roeddent yn **gwbl glir ynghylch cynnwys y bwndel a ni chafwyd consensws ar beth y dylid rhoi'r bwndel ynddo.**

Mae'r crynodeb hwn yn seiliedig ar 1,086 o ymatebion arolwg ar-lein agored, a chynhaliwyd 7 grŵp ffocws gyda gweithwyr iechyd proffesiynol (26 i gyd) a rhieni newydd (30 i gyd).

Mae'r dulliau gweledol a ddefnyddir i brocio'r cyfranogwyr yn deillio o ymchwil Blychau Babi Llywodraeth yr Alban. Nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli bwriad Llywodraeth Cymru.

Nid yw'r canfyddiadau'n gynrychiadol, ac felly dylid eu trin yn ddangosol yn unig.

"Mae pawb yn hoffi cael rhywbeth am ddim." yn ymateb cyffredin gan rhieni

Ymolchi/glanhau



Roedd thermomedrau'n eitem hanfodol ym marn y rhan fwyaf o'r rhieni a gweithwyr iechyd proffesiynol, er mwyn asesu a oes angen triniaeth ar bentyn ac i dawelu meddwl rhieni, ond roedd yn anodd i rai eu fforddio.

Dyweddodd y rhan fwyaf bod y brws gwll yn ddiangen, ond yn ddefnyddiol ar gyfer y crudgen.

Ychydig iawn oedd yn adnabod bron pawb na fyddent yn rhoi cynnig arnynt. O'r rhieni a ddwyddodd y byddent yn gweud hynny, roeddent ond yn fodlon pe baent yn eu cael am ddim, ac reddent yn ansicr a fyddent yn parhau i'w defnyddio wedyn.

Crynodeb: Ymchwil datblygu cynnar – Bwndel Babi

Dillad gwely



Gofynnwyd hefyd ynghylch basged Moses, a gafodd groeso gan lawer o rieni a gweithwyr iechyd proffesiynol, ond roedd rhai'n tybio y byddai'n anfforddiadwy, neu'n teimlo y byddai'n well gwairo'r ar ryw beth arall.

Dillad



Cyngor y gweithwyr iechyd proffesiynol yw bod angen i fabanod wisgo het wrth adael yr ysbyty, ac yn aml nid oes gan rhieni un.

Roedd y gweithwyr iechyd proffesiynol yn anghytuno'n gryf â'r syniad o gynnwys menig, gan ddweud eu bod bellach yn cynghori rhieni i beidio â'u defnyddio.

Roedd gan nifer o rieni farn cryf ynghylch llwiau a phatrymau. Er enghraifft, roedd rhai'n hoffi'r het sebra a rhai ddim. Roedd pryderon hefyd ynghylch gwisgo dillad gyda brandio'r Llywodraeth arno, ac ystyriwyd bod teits yn eitem i ferched yn unig.

Er eu bod yn croesawu'r syniad o gynnwys dillad, roedd pawb yn cydnabod bod rhai'n cael llawer o ddillad fel anrhegion, yn enwedig ar gyfer y misoedd cyntaf.

Bwydo/bwydo ar y fron



Roedd nifer o weithwyr iechyd proffesiynol a rhieni'n o'r farn y byddai cynnwys eili ar gyfer y fron yn annog mamau newydd i roi cynnig ar fwydo ar y fron ac pharhau i wneud hynny'n hirach. Ond roedd y gost yn rhwystri rai.

Mynegodd gweithwyr iechyd proffesiynol bryderon ynghylch diogelwch babanod pe na bai slingiau'n cael eu defnyddio'n gywir, a soniwyd am farwolaeth babi mewn un ardal.

Soniodd rhieni newydd am "lyfrgelloedd benthg slingiau", lle'r oeddent yn gallu arbrofi gyda gwahanol gludwyr, a chyfeiriwyd at rai yr oeddent yn eu ffafrio.

Dwywedodd rai rhieni newydd y byddai cludydd babi'n rhy ddrud, ond y byddent wedi hoffi cael un.

Roedd pawb y dylid cynnwys cyn lleied â phosibl o dafenni fel bod y bwndel yn cael ei weld fel rhodd, a chan na fyddai'r tafenni'n cael eu darllen.

Amrywiol



Byddai'r rhieni'n o blaid cael nwyddau hylendid personol i'w cynnwys mewn bag ysbyty e.e. diaroglydd, brws/past dannedd, shampw etc.

Roedd nifer o weithwyr iechyd proffesiynol yn teimlo'n gryf ynghylch cynnwys condomau, gan y byddai'n eu helpu gyda'r sgyrsiau y mae'n rhaid iddynt eu cael gyda rhieni newydd ynghylch dulliau atal cenhedlu. Roedd rhai mamau newydd o blaid eu cynnwys, ond mynegodd rai bryderon y byddai'n rhoi pwysau diangen arnynt a disgwyliad o'u defnyddio.

Y farn gyffredinol oedd fod bagiau ysgwydd ar gyfer cewynau yn anffasiynol a/neu'n llai ymarferol.

Barnwyd bod yr eitemau eraill a awgrymwyd, e.e. meddyginaeth babi, pwmp bron, cewynau untro, gorchuddion bron etc, yn amhriodol neu'n erbyn y polisi.

Roedd rhieni a gweithwyr iechyd proffesiynol o'r farn y dylid rhoi gwybod i fenywod beichiog am y Bwndel Babi mewn apwyntiad gydag ymwelydd iechyd neu ar gyfer sgan 20 wythnos, a gofyn a hoffent gael un. Os felly, dylai'r bwndel gael ei ddosbarthu rhwng wythnos 32 a 36 o'r bechiogrwydd.

- ✗ Anghytuno'n gryf
- ✗ Anghytuno
- ❓ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ★ Cytuno
- ★ Cytuno'n gryf

1. Cyflwyniad

- 1.1 Roedd y cynnig i dreialu bwndel babi fel anrheg “croeso i'r byd” gan Lywodraeth Cymru yn ymrwymiad ym manifest o arweinyddiaeth Prif Weinidog Cymru.
- 1.2 Ym mis Awst a Medi 2019, aeth ymchwilwyr cymdeithasol Llywodraeth Cymru ati i wneud gwaith ymchwil cynnar i lywio'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r cynllun peilot Bwndel Babi. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau cychwynnol o'r gwaith hwn. Bwriedir gwneud gwaith ymchwil pellach.

Cefndir

- 1.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi teuluoedd a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Mae'r gwaith sy'n cael ei gynnal fel rhan o Dechrau'n Deg, Rhaglen Plant Iach Cymru a Rhaglen y 1000 Diwrnod Cyntaf, yn dangos y gwerth sydd eisoes yn cael ei roi gan Lywodraeth Cymru ar sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Mae'r cynllun peilot bwndel babi yn gam arall i ddangos yr ymrwymiad hwnnw, drwy roi rhodd sy'n cynnig cymorth materol ac ymarferol i helpu babanod a'u teuluoedd ar adeg hanfodol yn eu bywydau.¹
- 1.4 Er bod gwahaniaethau pwysig yn y bwriad polisi a'r cynlluniau gweithredu bwriedig yng Nghymru a'r Alban, rydym yn ddiolchgar iawn o fod wedi dysgu oddi wrth wybodaeth a chynghor ein cydweithwyr yn Llywodraeth yr Alban.
- 1.5 Mae Llywodraeth yr Alban wedi comisiynu pedwar darn o waith ymchwil i lywio eu polisi a'u proses weithredu ar gyfer eu Blychau Babi, sy'n cynnwys:
 - [astudiaeth ansoddol](#) ac arolwg ar-lein i gasglu barn rhieni ynghylch y cysyniad o Flwch Babi a'i gynnwys.
 - ymchwil ar y [cynllun peilot Blwch Babi](#).

¹ [Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar gynllun peilot bwndel babi](#)

- [arolwg dros y ffôn](#) gyda sampl o rieni sydd wedi cael y Blwch Babi er mwyn casglu eu sylwadau ar gynnwys y blwch, natur a lefel yr wybodaeth a ddarparwyd ynddo (e.e. ar gysgu diogel a bwydo ar y fron), y dulliau o hyrwyddo'r cynllun a'r defnydd o'r Clwb Rhieni cysylltiedig.
- asesiad effaith annibynnol (a gyhoeddir cyn hir).

- 1.6 Mae'r canfyddiadau o waith tystiolaeth Llywodraeth yr Alban wedi helpu i lywio'r dull gweithredu ar gyfer yr ymchwil datblygu cynnar hwn, a'r broses o ddatblygu'r polisi a'r cynlluniau gweithredu ar gyfer y peilot yng Nghymru. Dysgwyd wersi o fannau eraill ar draws y byd hefyd, ond cyd-destun yr Alban sydd fwyaf tebyg ac yn fwyaf perthnasol i Gymru.
- 1.7 Comisiynwyd gwerthusiad annibynnol o'r cynllun peilot. Bydd hyn yn darparu asesiad annibynnol o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y prosesau peilot, a'u heffaith tebygol. Disgwylir i'r adroddiad gwerthuso terfynol gael ei gyhoeddi ar ddechrau 2021.

Strwythur yr adroddiad

- 1.8 Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r canlynol:
- Trosolwg o'r gwaith ymchwil (Adran 2)
 - Canfyddiadau cychwynnol (Adran 3), sy'n ystyried:
 - Y cysyniad o fwndel
 - Darparu man cysgu
 - Cynnwys y bwndel, gan gynnwys:
 - Dillad gwely
 - Dillad
 - Bwydo/bwydo ar y fron
 - Ymolchi/glanhau
 - Eitemau eraill, gan gynnwys gwybodaeth
 - Cofrestru ar gyfer y bwndel a'i ddosbarthu
 - Casgliadau a'r camau nesaf (Adran 4).

2. Methodoleg

- 2.1 Mae'r adran hon yn manylu ar y dull gweithredu ar gyfer yr ymchwil datblygu cynnar, sydd wedi darparu tystiolaeth i lywio'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r cynllun peilot Bwndeli Babi a'r broses ar gyfer casglu tystiolaeth bellach.

Trosolwg

- 2.2 Cynhaliwyd camau allweddol y gwaith ymchwil ddigwydd ar yr un pryd. Roeddent yn cynnwys:
- **Adolygiad o dystiolaeth eilaidd:** gan edrych ar erthyglau mewn cyfnodolion a gwerthusiadau o fentrau tebyg mewn gwledydd eraill
 - **Ymgynghoriadau wedi'u targedu gyda rhanddeiliaid:** casglwyd sylwadau gan sefydliadau â diddordeb, megis y Coleg Nyrsio Brenhinol, Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau, a sefydliadau yn y trydydd sector sy'n cefnogi teuluoedd newydd
 - **Arolwg ar-lein agored ar gyfer rhieni â phlant dan 2 oed:** rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r arolwg drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a rhwydweithiau partner. Daeth 1,086 o ymatebion i law.
 - **Pedwar grŵp ffocws gyda rhieni:** eto'n targedu rheini â phlant dan 2 oed, ac a drefnwyd yn bennaf gan bartneriaid Dechrau'n Deg a Cymunedau yn Gyntaf. Casglwyd sylwadau gan 30 o rieni newydd.
 - **Tri grŵp ffocws gyda gweithwyr proffesiynol rheng flaen:** gan gynnwys ymwelwyr ieuchyd a bydwagedd yn y gymuned (26 i gyd).
- 2.3 Mae'n bwysig nodi bod llawer o'r gwaith ymchwil cynnar wedi'i wneud yn gyflym. Crëwyd samplau ar gyfer yr arolygon a'r grwpiau ffocws ar hap, ac felly nid yw'r sylwadau a gasglwyd o reidrwydd yn cynrychioli pawb.

- 2.4 Cyflwynir y dulliau casglu data yn Atodiadau A-C. Mae'r dulliau gweledol a ddefnyddir i brocio'r cyfranogwyr yn deillio o ymchwil Blychau Babi Llywodraeth yr Alban. Nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli bwriad Llywodraeth Cymru.

Adolygiad o dystiolaeth eilaidd

- 2.5 Ni fu'n bosibl cynnal adolygiad systematig o lenyddiaeth yn yr amser a oedd ar gael. Gwnaed chwiliad syml o fwy na 5,000 o gyfnodolion gwyddorau cymdeithasol gan ddefnyddio [EBSCO](#).
- 2.6 Y termau allweddol y chwiliwyd amdanynt oedd "Blwch Babi", "Bwndel Babi", "Basged Moses". Ystyriwyd termau eraill ar sail ad hoc, ar sail dolenni a gyflwynwyd yn yr erthyglau a adolygwyd e.e. gwerthusiad o "cysgu diogel", "pethau hanfodol ar gyfer babanod newydd-anedig", a "rhodd babi".
- 2.7 Gosodwyd paramedrau llym ar gyfer y chwiliadau. Dim ond erthyglau a gyhoeddwyd yn y degawd diwethaf, ac yn Saesneg, a ystyriwyd.

Ymgynghoriadau wedi'u targedu gyda rhanddeiliad

- 2.8 Nododd Bwrdd Prosiect Bwndel Babi Llywodraeth Cymru² gynrychiolwyr o sefydliadau allweddol. Cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol gyda'r unigolion hyn a wnaeth, ochr yn ochr â'r adolygiad o dystiolaeth, helpu i bennu pynciau'r grŵp ffocws a chwestiynau'r arolwg ar-lein.
- 2.9 Ond yn bwysicaf oll, fe wnaeth yr ymgynghoriadau hyn lywio'r model rhesymeg ar gyfer y cynllun peilot. Mae'r model hwn bellach yn fframwaith gwerthuso ar gyfer y peilot, gan bennu'r allbynnau (a fydd yn cael eu monitro) a'r canlyniadau a fwriedir (a gaiff eu hystyried yn y gwerthusiad annibynnol).

² Grŵp mewnol o swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cydweithwyr o'r adrannau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymunedau a Threchu Tlodi.

Arolwg ar-lein agored ar gyfer rhieni â phlant dan 2 oed

- 2.10 Fel man cychwyn ar gyfer ein harolwg ar-lein ni, defnyddiwyd y cwestiynau a ofynnwyd i rieni newydd yn yr Alban ar gyfer datblygu eu blwch nhw. Yn ogystal, roedd enghreifftiau gweledol a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar yr adnoddau a ddefnyddiwyd ym mlwch babi Llywodraeth yr Alban. Cafodd y cwestiynau a'r enghreifftiau eu haddasu i adlewyrchu'r model rhesymeg ar gyfer ein cynllun peilot ni a'n hymrwymiad i ddarparu "bwndel" (ac nid, o reidrwydd, blwch neu fan cysgu).
- 2.11 QuestBack a ddefnyddiwyd fel y llwyfan digidol ar gyfer cwestiynau'r arolwg. Roedd yr arolwg ar waith ym mis Awst a mis Medi 2019. Hyrwyddwyd y ddolen i'r arolwg yn eang drwy sefydliadau partner a thrwy ddefnyddio sianelau cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru e.e. y dudalen 'Magu Plant. Rhowch amser iddo' ar Facebook.
- 2.12 Cafwyd cyfanswm o 1,086 o ymatebion i'r arolwg, ac roedd 15% o'r rhain yn Gymraeg. Daeth 720 ymateb i law oddi wrth ein cynulleidfa darged, sef rhieni Cymraeg â phlant o dan 2 oed. Targedwyd y rhieni hyn am eu bod wedi cael profiad diweddar o faban newydd-anedig, ac felly yn y sefyllfa orau i fynegi barn ar y pethau sy'n hanfodol ar gyfer baban newydd-anedig ac ar roddion addas a'r ffordd orau o dderbyn y bwndel.
- 2.13 Er bod y dull samplu'n golygu bod yr ymatebwyr yn hunanddewis, cafwyd cynrychiolaeth gymharol dda o bob rhan o Gymru. Yr awdurdodau lleol â'r niferoedd uchaf o ymatebwyr oedd Caerdydd, Conwy, Powys a Bro Morgannwg, gyda rhyw 10% o gyfanswm yr ymatebwyr ym mhob un. 1% yn unig o'r ymatebwyr oedd yn ddynion. Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni yn y grŵp targed a gymerodd ran yn yr arolwg rhwng 25 a 34 oed. Ni wnaeth unrhyw rieni dan 17 oed gymryd rhan.
- 2.14 Cyfyngiad sylweddol o'r arolwg ar-lein yw nad ydym yn gwybod i ba raddau y mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu safbwyntiau rhieni newydd yn gyffredinol. Felly, rhaid trin canfyddiadau'r arolwg fel rhai dangosol yn unig.

Pedwar grŵp ffocws gyda rhieni

- 2.15 Diben y grŵp ffocws oedd archwilio'r materion a godwyd yn yr arolwg ar-lein yn fanylach, ac ennyn dealltwriaeth well o rai o'r rhesymau dros safbwyntiau'r rhieni. Nid oeddent wedi'u cynllunio i gasglu barn gynrychiadol.

- 2.16 Cynhaliwyd pedwar grŵp ffocws gyda 30 o rieni newydd. Trefnwyd y grwpiau drwy gysylltiadau sy'n gweithio mewn cymunedau yr oedd Is-adran Plant a Theuluoedd Llywodraeth Cymru eisoes yn gwybod amdanynt. I wneud y broses yn fwy cyfleus i rieni, trefnwyd y grwpiau cyn neu ar ôl digwyddiad neu gyfarfod cymunedol fel grŵp bwydo ar y fron neu sesiwn chwarae mam/tad a phlentyn. Aeth hwyluswyr hefyd i un grŵp rhianta amser cinio mewn gweithle, ond nid oedd gan unrhyw un o'r cyfranogwyr o'r grŵp hwn blentyn dan 2 oed ac felly nid yw'r data a gasglwyd wedi'u hystyried yn yr adroddiad hwn (byddai'r grŵp hwn wedi bod yn ychwanegol i'r pedwar grŵp ffocws arall sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn).
- 2.17 Fe wnaeth hyd pob grŵp ffocws amrywio'n sylweddol. Yn aml, roedd y cyfranogwyr yn gorfod rhoi sylw i'w plant, neu roeddent yn achub ar y cyfle i siarad ag eraill o'u cwrdd am unrhyw bryderon oedd ganddynt e.e. trafferthion cysgu neu wrth fwydo eu baban. Gwnaeth hyn ychwanegu at yr amser; aeth y drafodaeth mewn un grŵp ymlaen am bron 3 awr, ond traean yn unig o'r amser hwnnw a dreuliwyd yn trafod y materion yn y rhestr pynciau. Ar adegau, byddai trafodaethau'r grŵp yn rhannu'n sgrysiâu byrrach, a'r hwylusydd ond yn gallu bod yn rhan o un drafodaeth ar y tro. Felly, teimlwyd na fyddai'n briodol glynu'n llym at y pynciau a nodwyd ar gyfer y grwpiau ffocws.
- 2.18 Am resymau ymarferol, cynhaliwyd y grwpiau ffocws yng nghanolbarth a de Cymru'n unig, a hynny mewn lleoliadau trefol a gwledig. Yn Saesneg yn unig y cynhaliwyd trafodaethau'r grwpiau, ond cafodd y cyfranogwyr mewn un grŵp gyfle i gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg os oeddent yn dymuno gwneud hynny.
- 2.19 Cofnodwyd trafodaethau'r grwpiau ffocws gyda chaniatâd y cyfranogwyr. Darparodd hyn gofnod o'r hyn a ddywedwyd, sydd wedi ategu'r dadansoddiad.

Tri grŵp ffocws gyda gweithwyr iechyd proffesiynol rheng flaen

- 2.20 Yn debyg i'r grwpiau ffocws ar gyfer rhieni, diben y grwpiau i weithwyr iechyd rheng flaen oedd ceisio deall eu safbwyntiau nhw'n well, ond hefyd tynnu ar eu profiad a'u gwybodaeth broffesiynol o ran yr hyn a fyddai'n fwyaf defnyddiol, ymarferol a diogel.
- 2.21 Cynhaliwyd tri grŵp ffocws i gyd, gyda 26 o weithwyr iechyd proffesiynol, gan gynnwys nyrsys a bydwragedd. Yn yr un modd â'r grwpiau uchod, cynhaliwyd y grwpiau hyn mewn lleoliadau trefol a gwledig yng nghanolbarth a de Cymru, ac yn

Saesneg yn unig. Aeth hwylusydd Cymraeg i un grŵp, ond dewisodd y cyfranogwyr gyfrannu'n Saesneg.

- 2.22 Eto, cofnodwyd trafodaethau'r grwpiau ffocws gyda chaniatâd y cyfranogwyr.

Dadansoddiad

- 2.23 Allforiwyd data'r arolwg ar-lein o QuestBack i Excel er mwyn cynnal dadansoddiad disgrifiadol. Ystyriwyd y canlyniadau ar wahân yn gyntaf cyn eu defnyddio i gynllunio a dadansoddi'r ymchwil ansoddol.
- 2.24 Ni wnaethom drawsgrifio'r cyfweiliadau na'r grwpiau ffocws, ond yn hytrach defnyddiwyd codau wrth ddadansoddi'r nodiadau manwl a gymerwyd, gan gyfeirio at y cofnodion hefyd (i sicrhau bod y nodiadau'n gywir). Daeth sawl thema i'r amlwg yn ystod y gwaith dadansoddi, a nodwyd materion eraill yn yr arolwg hefyd. O ystyried yr amser a oedd ar gael, a chan gofio mai gwaith datblygu cynnar yn unig yw hwn, penderfynwyd mai dyma oedd y dull gweithredu mwyaf priodol.
- 2.25 Cyflwynir canlyniadau'r dadansoddiad yn adran nesaf yr adroddiad hwn. Fel y nodwyd eisoes, dylid ystyried bod y canlyniadau'n ddangosol oherwydd cyfyngiadau'r gwaith ymchwil hwn.

Y camau nesaf

- 2.26 Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i lywio'r dull gweithredu cenedlaethol, gan gynnwys gwerthusiad cynhwysfawr o'r cynllun peilot.

3. Canfyddiadau

- 3.1 Mae ein hymchwil cychwynnol yn dangos yn glir bod rhieni'n cefnogi'r syniad ac y byddent yn hoffi derbyn Bwndel Babi, a bod gweithwyr iechyd proffesiynol hefyd yn gefnogol ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd barn gref gan rieni newydd a gweithwyr iechyd proffesiynol ynghylch cynnwys y Bwndel Babi. Cyflwynir eu safbwyntiau isod, ochr yn ochr â thystiolaeth o waith ymchwil sydd eisoes yn bodoli.

Cysyniad y bwndel

- 3.2 Roedd tua thraean o'r ymatebwyr i'r arolwg eisoes wedi clywed am Fwndeli Babi, ac roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn cytuno'n gryf (74%) â'r datganiad y byddent wedi hoffi cael Bwndel Babi.
- 3.3 Roedd y rhieni a gymerodd ran yn yr ymchwil ansoddol yn frwdfrydig ynghylch y syniad o geisio rhoi'r un dechrau i bawb. Fodd bynnag, awgrymwyd y dylid cyfyngu'r cynllun i deuluoedd difreintiedig a rhieni ar incymau isel oherwydd pryderon ynghylch yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau eraill i deuluoedd.
- 3.4 Gofynnodd bydwagedd ac ymwelwyr iechyd, a rhai rhieni hefyd, am ragor o wybodaeth ynghylch nodau'r cynllun, y manteision bwriedig a'r dystiolaeth sy'n sail iddo.

Man cysgu

- 3.5 Bu rhywfaint o ddiddordeb yn hanesyddol mewn cynlluniau *Blwch* Babi fel ffordd o wella canlyniadau iechyd ar gyfer babanod hyd at chwe mis oed - yn bennaf o Syndrom Marwolaeth Sydyn Babanod ac arferion cysgu anniogel. Ymddengys fod y diddordeb hwn wedi'i ysgogi'n bennaf gan y model traddodiadol o'r Ffindir ond hefyd gan gynlluniau tebyg a sefydlwyd mewn rhai ymddiriedolaethau iechyd yn Lloegr a'r cynllun a lansiwyd gan Lywodraeth yr Alban yn 2017.
- 3.6 Fodd bynnag, nid cheir llawer o dystiolaeth bod blwch babi'n gallu sicrhau canlyniadau iechyd gwell. Mae'n anodd gwahanu effaith y blychau babi oddi wrth

ffactorau eraill sydd wedi helpu i leihau marwolaethau babanod. Oherwydd y diffyg tystiolaeth i gefnogi'r defnydd o flwch babi, mae'r gwaith ymchwil hwn wedi archwilio opsiynau eraill ar gyfer man cysgu e.e. basged Moses, a rhywbeth a all ddal y bwndel e.e. bag cewynnau neu fath babi.

- 3.7 Fodd bynnag, ni chafwyd consensws yn yr ymchwil ansoddol ynghylch p'un a ddylid darparu man cysgu ai peidio. Dywedodd ychydig dros hanner y rhieni a wnaeth ymateb i'r arolwg (54%) y byddent yn defnyddio'r Bwndel Babi fel man cysgu, ac y byddent yn fwyaf tebygol o'i ddefnyddio yn ystod y dydd. Nifer gymharol fach o rieni a fyddai'n ei ddefnyddio yn ystod y nos.
- 3.8 Nododd ymchwil Llywodraeth yr Alban bryderon diwylliannol ac ymarferol yn ymwneud â defnyddio'r Blwch Babi fel man cysgu. Roedd y rhwystrau diwylliannol yn gysylltiedig â'r teimlad nad yw rhoi babi i gysgu mewn blwch yn rhywbeth y mae pobl yn yr Alban yn gyfarwydd ag ef. Er bod y cynllun peilot yn cynnwys rhieni a oedd eisoes wedi dod i arfer â'r syniad, roedd eraill yn teimlo y byddai rhieni ond yn defnyddio Blwch Babi at y diben hwn pe na baent yn gallu fforddio math arall o wely. Roedd y pryderon ymarferol yn cynnwys pryderon ynghylch rhoi'r blwch ar y llawr a chwestiynau ynghylch a fyddai modd parhau i'w ddefnyddio pe bai eu baban yn cyfogi ynddo.
- 3.9 Soniodd nifer o rieni newydd a gweithwyr ieuchyd proffesiynol yn y grwpiau ffocws fod sefydliadau yn y trydydd sector a manwerthwr mawr eisoes yn cynnig mannau cysgu (neu fwndeli) i deuluoedd sydd eu hangen neu'n gofyn amdanynt. Cwestiynwyd felly a ddylai'r llywodraeth eu darparu.
- 3.10 Os na ddarperir man cysgu, byddai angen rhoi'r bwndel babi yn rhywbeth arall. Roedd y cyfranogwyr yn glir ynghylch beth allai hyn fod. Roeddent yn hoff o'r opsiwn o fag cefn, ond yn glir na ddylai gynnwys brandio'r llywodraeth. Roeddent hefyd o'r farn y gallai fod yn amhosibl cynhyrchu bag a fyddai'n apelio i bawb.

Cynnwys y bwndel

- 3.11 Roedd barn rhieni am gynnwys y bwndel yn gefnogol iawn ar y cyfan - roeddent yn fodlon iawn ag ansawdd ac ystod yr eitemau. Nid oedd hyn yn syndod, gan fod yr eitemau yn ein blwch cychwynnol ni'n seiliedig ar yr hyn a oedd wedi'i gynnwys ym


Mlwch Babi Llywodraeth yr Alban, a oedd hefyd yn seiliedig ar dystiolaeth. Roedd y thermomedr clust a'r thermomedr bath yn boblogaidd iawn ac yn cael eu hystyried yn eitemau gwerthfawr na fyddai rhieni o bosibl wedi'u eu prynu fel arall.

- 3.12 Yn ôl yr arolwg ar-lein, y pedwar categori mwyaf poblogaidd o eitemau y byddai rhieni'n hoffi eu gweld yn y Bwndel Babi oedd: nwyddau ymolchi neu eitemau meddygol, eitemau ar gyfer y fam neu'r rhieni, eitemau newid ac eitemau eraill (gan gynnwys blanced gellog a bib driblo). Yr eitemau mwyaf poblogaidd yr oedd rhieni eu heisiau yn y Bwndel Babi oedd nwyddau ymolchi ac eitemau meddygol - roedd 92% o'r rhieni am i'r rhain gael eu cynnwys. Y nwyddau lleiaf poblogaidd oedd dillad maint 3 i 6 mis, ond roedd chwarter yr ymatebwyr yn dal i deimlo y dylai'r Bwndel gynnwys y rhain.

Dillad gwely

- 3.13 Nodwyd bod dillad gwely'n hanfodol os bwriedir darparu man cysgu. Os bwriedir gwneud hynny, dywedodd y cyfranogwyr fod gan fannau cysgu gwahanol ofynion gwahanol o ran y math o ddillad gwely a'u maint. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o'r farn na fyddai'n bosibl darparu dillad gwely a fyddai'n addas i bawb.
- 3.14 Cydnabuwyd yn eang y gost ar gyfer darparu man cysgu, ac yn enwedig matres. Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni'n teimlo y dylai matres babi wastad fod yn newydd, ac na ddylai gael ei throsglwyddo rhwng ffrindiau neu deulu.
- 3.15 Felly, mae Ffigur 1 yn dangos na chafwyd barn glir ynghylch dillad gwely; byddai rhieni'n croesawu'r gostyngiad yng nghost dillad gwely ond roeddent yn ansicr a fyddai'n bosibl rhoi dillad gwely addas fel rhodd heb ddarparu man cysgu addas hefyd.


Ffigur 1: Adborth ar ddillad gwely



Dillad

- 3.16 Dywedodd y gweithwyr iechyd proffesiynol yn glir na ddylid cynnwys menig gan nad ydynt yn caniatáu cysylltiad croen â chroen. Cafodd yr holl eitemau dillad eraill eu croesawu gan y rhieni a'r gweithwyr iechyd yn y gwaith maes ansoddol a meintiol.
- 3.17 Fel y nodwyd uchod, canfu'r arolwg ar-lein mae'r eitemau lleiaf poblogaidd oedd dillad maint 3 i 6 mis, er bod chwarter yr ymatebwyr yn dal i deimlo y dylid eu cynnwys yn y Bwndel.
- 3.18 Yn ystod y gwaith maes ansoddol, daeth i'r amlwg fod gan rai rhieni newydd farn gref ynghylch lliwiau a phatrymau, ond nid oedd unrhyw gysondeb o ran hyn ymhlith rhieni. Er enghraifft, roedd rhai rhieni'n hoffi'r print sebra ar yr het gan ddweud y byddent yn hoffi ei gael ar gyfer eu plentyn. Ar y llaw arall, roedd eraill o blaid y syniad o gynnwys het ond nid oeddent yn hoffi'r het sebra yn y llun.

Ffigur 2: Adborth ar y dillad



- 3.19 Dywedodd y rhieni a'r gweithwyr iechyd proffesiynol yn glir na ddylid rhoi brandio'r llywodraeth ar y dillad. Os oedd brandio ar y dillad, ni fyddent yn debygol o'u defnyddio. Roedd yr un peth yn wir am y cynnig i roi'r bwndel mewn bag cefn, h.y. ni ddylid rhoi brand y llywodraeth arno. Eto, mae gan rieni newydd farn wahanol o ran y math o fag a lliw'r bag (ond roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod bag ysgwydd yn anymarferol a ddim yn ffasiynol).

Bwydo/bwydo ar y fron

- 3.20 Yn ystod y grwpiau ffocws, cytunwyd yn gyffredinol bod bwydo baban newydd-anedig neu fwydo ar y fron ddim bob amser yn hawdd, a'i fod yn heriol iawn i rai rhieni newydd. Roedd yn bwnc emosiynol i sawl un o'r cyfranogwyr. Y prif beth all helpu yw cael cyngor gan weithwyr proffesiynol.

- 3.21 Er na wnaeth yr hwyluswyr sôn am eli ar gyfer y fron, ac nad oes llun ohono yn y delweddau a ddangoswyd i'r grwpiau ffocws, cafodd ei awgrymu gan y cyfranogwyr fel rhywbeth a allai fod yn ddefnyddiol i famau newydd. Roedd nifer o weithwyr iechyd proffesiynol a rhieni'n teimlo y byddai eli ar gyfer y fron yn annog mamau newydd i roi cynnig ar fwydo ar y fron a pharhau i wneud hynny am gyfnod hirach.
- 3.22 Dywedodd y gweithwyr iechyd fod rhai mathau o eli'n fwy effeithiol a diogel nac eraill. Soniwyd bod lanolin yn gynhwysyn allweddol ar gyfer gwella'r croen yn effeithiol, ond ei fod yn dueddol o gael ei gynnwys mewn eli mwy drud yn unig. Dywedwyd hefyd nad oes yn rhaid glanhau rhai mathau o eli o'r croen cyn bwydo ar y fron, ac felly eu bod yn fwy cyfleus.
- 3.23 Roedd cost eli ar gyfer y fron yn rhwstr i rai o'r rhieni newydd y siaradwyd â nhw, neu i rieni newydd yr oedden nhw'n eu hadnabod. Fe wnaeth y gweithwyr iechyd proffesiynol gydnabod bod cost eli ar gyfer y fron yn atal rhai mamau rhag parhau i fwydo ar y fron. Dywedodd rhai gweithwyr iechyd proffesiynol eu bod weithiau'n gallu rhoi pecynnau bach o eli i rieni ond nad oedd y pecynnau hyn bob amser ar gael iddynt.
- 3.24 Er y byddai'r rhan fwyaf o'r gweithwyr iechyd proffesiynol o blaid cynnwys eli ar gyfer y fron yn y bwndel, dywedodd rai bod cynnwys unrhyw fath o eli croen yn codi pryderon ynghylch alergeddau posibl.

Ffigur 3: Adborth ar eitemau i gefnogi bwydo




- 3.25 Roedd y rheini a wnaeth gyfrannu at y gwaith ymchwil o blaid cynnwys bibiau bwydo a bibiau driblo, ac yn teimlo eu bod yn eitemau hanfodol neu ddefnyddiol.

- 3.26 Yn gyffredinol, credwyd nad yw'r wybodaeth sydd yn y bwndel, yn cynnwys gwybodaeth am fwydo a bwydo ar y fron, yn gweddu i'r syniad o rodd. Sonnir yn fanylach isod am ddarparu gwybodaeth fel rhan o'r bwndel.

Ymolchi/glanhau

- 3.27 Roedd y rhan fwyaf o rieni a gweithwyr iechyd proffesiynol o'r farn bod thermomedrau'n eitem hanfodol i asesu a oes angen triniaeth ar y plentyn ac i dawelu meddwl rhieni, ond eu bod yn anodd i rai eu fforddio. Cyfeiriodd nifer at y llun o'r thermomedr clust digidol, gan ddweud mai'r rhain oedd y thermomedrau gorau ac y byddent yn hoffi cael un.
- 3.28 Mynegodd rai gweithwyr iechyd proffesiynol fân bryderon y gallai rhai rhieni ddefnyddio thermomedr clust yn anghywir ac y gallai hynny niweidio eu baban. Fodd bynnag, roeddent yn derbyn bod risg o ddefnyddio nifer o nwyddau baban yn anghywir (gweler y sylwadau ynghylch y sling babi isod). Roedd y rhan fwyaf yn cytuno hefyd bod thermomedr clust digidol yn hawdd ei ddefnyddio ac yn fwy dibynadwy.
- 3.29 O ran y brwsh gwallt, y farn gyffredinol yn y grwpiau ffocws gyda rhieni newydd oedd ei fod yn ddiangen. Dywedodd nifer o'r gweithwyr iechyd proffesiynol y gellid ei ddefnyddio ar gyfer y crudgen; ac roedd gweithwyr iechyd eraill yn teimlo i ddechrau nad oedd ei angen ond wedyn wedi newid eu meddyliau.
- 3.30 Roedd y mwyafrif o blaid cynnwys tywel, ac yn ei ystyried yn eitem hanfodol y bydd pob rhiant ei hangen.

Ffigur 4: Adborth ar eitemau ymolchi/glanhau



- 3.31 Soniwyd bod mat newid bach yn rhywbeth sydd fel arfer yn cael ei gynnwys mewn bag newid. Dywedodd sawl rhiant fod y mat newid bach oedd ganddyn nhw yn rhan o'u bag newid, ac felly nid oeddent yn teimlo bod angen cynnwys un yn y bwndel. Dengys yn Ffigur 4 nad oedd barn glir ar hyn gan fod eraill yn teimlo bod mat newid yn eitem hanfodol y dylid ei gynnwys.
